| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Dyddiad: | 7 Rhagfyr 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2017** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 9 - 10)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 11 - 20)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017 (copi wedi'i atodi).

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 14) -**

5 **CAIS RHIF 01/2017/0901 – AMGUEDDFA DINBYCH, LÔN GOCH, DINBYCH** (Tudalennau 21 - 40)

Ystyried cais am addasiadau ac estyniad i greu mynedfeydd newydd ynghyd â gwaith ategol gan gynnwys arwyddion newydd a dymchwel grisiau allanol yn Amgueddfa Dinbych, Lôn Goch, Dinbych.

6 **CAIS RHIF 01/2017/0902- AMGUEDDFA DINBYCH, LÔN GOCH, DINBYCH** (Tudalennau 41 - 58)

Ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth ar gyfer dymchwel grisiau allanol yn Amgueddfa Dinbych, Lôn Goch, Dinbych.

7 **CAIS RHIF 08/2017/0896- TIR YN (RHAN O ARDD) PEN Y DALAR, GODRE'R COED, CYNWYD, CORWEN** (Tudalennau 59 - 76)

Ystyried cais i godi 1 annedd a gwaith cysylltiedig ar Dir yn Rhan o ardd) Pen Y Dalar, Godre'r Coed, Cynwyd, Corwen.

8 **CAIS RHIF 15/2017/0809- TIR I'R DE O, AC YN CYNNWYS, PARC CARAFANAU PARC FARM, FFORDD GRAIANRHYD, LLANARMON-YN-IÂL, YR WYDDGRUG** (Tudalennau 77 - 86)

Ystyried cais i amrywio amod rhif 3 o ganiatâd cynllunio rhif 15/2011/0651 i ganiatáu i unedau carafan statig amgen gael eu lleoli o fewn y parc carafanau estynedig sydd wedi ei gymeradwyo ar Dir i'r de i a sy'n cynnwys Parc Carafanau Parc Farm, Ffordd Graianrhyd, Llanarmon-Yn-Ial, Yr Wyddgrug.

9 **CAIS RHIF 15/2017/0893- PARC GWYLIAU PARC FARM, LLANARMON-YN-IÂL, YR WYDDGRUG** (Tudalennau 87 - 100)

Ystyried cais i godi wal derfyn gydag arwydd ac ardal arddangos wedi eu gosod oddi mewn ym Mharc Gwyliau Parc Farm, Llanarmon yn Ial, Yr Wyddgrug.

10 **CAIS RHIF 20/2017/0819- TIR LLAN, GYFERBYN Â BRON Y CLWYD, LLANFAIR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN** (Tudalennau 101 - 136)

Ystyried cais i ddatblygu 1.24 hectar o dir drwy adeiladu ysgol gynradd newydd gan gynnwys ardaloedd chwarae y tu allan, ardal gynefinoedd, creu mynedfa newydd i gerbydau, maes parcio gydag ardal ollwng, gwaith tirlunio, storfa finiau, tanciau LPG a chwistrellwyr a chysylltiadau i gerddwyr yn y Tir Llan gyferbyn â Bron Y Clwyd, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

11 **CAIS RHIF 21/2017/0957- 4 BRYN ARTRO AVENUE, LLANFERRES, YR WYDDGRUG** (Tudalennau 137 - 154)

Ystyried cais i godi annedd newydd yn lle'r un presennol, yn 4 Bryn Artro Avenue, Llanferres, Yr Wyddgrug.

**12 CAIS RHIF 23/2016/1218- PARC CARAFANAU CAER MYNYDD, SARON, DINBYCH** (Tudalennau 155 - 174)

Ystyried cais am estyniad i Barc Gwyliau presennol i ganiatáu lleoli 35 o Garafanau Gwyliau Statig yn lle 41 o Leiniau Carafanau Teithiol Cymysg gan roi'r gorau i ddefnyddio rhan ogleddol y parc ym Mharc Carafanau Caer Mynydd, Saron, Dinbych.

**13 CAIS RHIF 45/2017/1029- TIR YN GREENFIELD PLACE, RHYL** (Tudalennau 175 - 186)

Ystyried cais i amrywio amod rhif 6 o ganiatâd cynllunio rhif 45/2001/0562 i ganiatáu cyfnod o 2 awr i barcio am ddim cyn codi tâl ar Dir yn Greenfield Place, Rhyl.

**14 CAIS RHIF 46/2017/0944- QUEENSLAND HOUSE, Y RO, LLANELWY** (Tudalennau 187 - 206)

Ystyried cais i gadw siediau presennol sy'n cael eu defnyddio fel gweithdy (B1 defnydd diwydiannol ysgafn) ac at ddefnydd personol (cais ôl-syllol) yn Queensland House, Y Ro, Llanelwy.

**15 ADRODDIAD I OFYN AM BENDERFYNIAD AR YR AMODAU CYNLLUNIO GYDA CHAIS CYNLLUNIO RHIF: 16/2017/0628** (Tudalennau 207 - 230)

Ystyried adroddiad i geisio cael penderfyniad gan Aelodau ar yr amodau cynllunio i'w hatodi i'r Tystysgrif Penderfyniad ar gyfer cais cynllunio rhif: 16/2017/0628, a gafodd ganiatâd cynllunio yng nghyfarfod mis Tachwedd 2017 o'r Pwyllgor.

**16 PROTOCOL AELODAU/SWYDDOGION – CYFATHREBU AR GEISIADAU MAWR** (Tudalennau 231 - 236)

Ystyried adroddiad i gyflwyno dogfen brotocol fewnol newydd ar gyfer trin cynigion datblygiadau mawr o fewn y Sir.

**17 GOBLYGIADAU NODYN CYNGOR TECHNEGOL 20: CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG - O SAFBWYNT YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO** (Tudalennau 237 - 240)

Ystyried adroddiad yn diweddaru aelodau ar faterion sy'n codi o safbwynt ystyried ceisiadau cynllunio yn sgil cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 Llywodraeth Cymru: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ym mis Hydref 2017.

**18 GWOBR GYNLLUNIO SEFYDLIAD CYNLLUNIO TREFOL BRENHINOL (RTPI) CYMRU 2017** (Tudalennau 241 - 242)

Derbyn adroddiad gwybodaeth i hysbysu'r Pwyllgor Cynllunio ynglŷn â'r newyddion bod prosiect Ysgol Uwchradd newydd y Rhyl wedi ennill Gwobr fawreddog Cynllunio Cymru 2017 yng nghinio blynyddol RTPI Cymru yng Nghaerdydd 17 Tachwedd 2017.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Joe Welch (Cadeirydd)

Alan James (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard
Ann Davies
Meirick Davies
Peter Arnold Evans
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler

Christine Marston
Bob Murray
Merfyn Parry
Peter Scott
Thomas
Julian Thompson-Hill
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned